

Anabledd Dysgu Cymru

Adolygiad Blynyddol
2025 – 2026



Rydyn ni am i Gymru
fod y wlad orau yn y byd i
bobl ag anabledd dysgu
fyw, dysgu, caru a gweithio.




Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

Cynnwys

Negeseuon o groeso	3
Dylanwadu ar bolisi	5
Pobl yr 21ain Ganrif	8
Barod i Bleidleisio	11
Hawdd ei Ddeall Cymru	12
Digwyddiadau a rhwydweithiau	14
Ffrindiau Gig Cymru	16
Ein staff	20
Ein hymddiriedolwyr a'n haelodau	22
Sut y gwnaethon ni wario ein harian	23
Ein blwyddyn mewn lluniau	24

Ar y clawr: Ffrindiau Gig yn mynd i gyngerdd Tom Jones yng Nghastell Caerdydd



Cadwch mewn cysylltiad

 **Gwefan** www.ldw.org.uk/cy/

 **E-bost** enquiries@ldw.org.uk

 **Facebook** [/learningdisabilitywales](https://www.facebook.com/learningdisabilitywales)

 **X/Twitter** [@LdWales](https://twitter.com/LdWales)

 **YouTube** [@LearnDisabilityWales](https://www.youtube.com/@LearnDisabilityWales)

 **LinkedIn** [/learning-disability-wales](https://www.linkedin.com/company/learning-disability-wales)

 **Instagram** [/learningdisabilitywales](https://www.instagram.com/learningdisabilitywales)

 **Bluesky** [@ldwales.bsky.social](https://bsky.app/profile/@ldwales.bsky.social)

Anabledd Dysgu Cymru
41 Lambourne Crescent
Parc Busnes Caerdydd
Llanisien, Caerdydd CF14 5GG

Ffôn: 029 2068 1160
Cwmni cyfyngedig trwy warant: 02326324
Elusen Gofrestredig: 1062858
Rhif Cofrestru TAW: 762 4559 11

Neges o groeso

gan ein Cadeirydd, Tracy Hammond



Uchafbwyntiau

- Mae Anabledd Dysgu Cymru wedi gweithio'n galed i wella bywydau pobl ag anabledd dysgu yng Nghymru.
- Mae llawer o bobl yn dal i wynebu rhwystrau, felly mae ein gwaith mor bwysig ag erioed.

Mae hon wedi bod yn flwyddyn brysur a phwysig arall i Anabledd Dysgu Cymru. Unwaith eto, mae ymrwymiad, egni a dyfalbarhad ein staff, ein hymddiriedolwyr a'n gwirfoddolwyr wedi gwneud argraff fawr arna i.

Er gwaethaf tirwedd ariannol heriol, mae llawer i fod yn falch ohono. Mae ein gwaith wedi amrywio o gefnogi rhieni ag anabledd dysgu, hyrwyddo gofal iechyd hygyrch a lleihau arferion cyfyngol, i ddylanwadu ar bolisi a chreu cyfleoedd i bobl ag anabledd dysgu gael eu clywed.

Mae wedi bod yn gyffrous gweld Ffrindiau Gig Cymru yn parhau i dyfu ac yn galluogi nifer cynyddol o bobl i feithrin cyfeillgarwch, hyder a chysylltiadau yn eu cymunedau. Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi helpu mwy o sefydliadau i gyfathrebu'n hygyrch, ac mae Barod i Bleidleisio'n helpu mwy o bobl i ymgysylltu â gwleidyddiaeth. Mae'r gwaith hwn yn adlewyrchu'r hyn y mae Anabledd Dysgu Cymru wedi bod yn ei wneud erioed, sef dod â phobl ynghyd, cryfhau lleisiau a chreu cyfleoedd ar gyfer newid.

Mae 2026 yn nodi 40 mlynedd ers sefydlu Anabledd Dysgu Cymru. Wrth edrych yn ôl, mae llawer i'w ddathlu. Am 4 degawd, rydyn ni wedi gweithio ochr yn ochr â phobl eraill i herio anghydraddoldeb a gwella bywydau pobl ag anabledd dysgu ledled Cymru. Ond mae llawer o bobl yn dal i wynebu rhwystrau i gyfleoedd, cyfranogiad a chynhwysiant, felly mae ein gwaith yn parhau i fod mor bwysig ag erioed.

Wrth inni edrych ymlaen at ein blwyddyn ben-blwydd, hoffwn i ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ein gwaith. Mae'r cynnydd a wnaed dros y 4 degawd diwethaf yn perthyn i lawer o bobl, ac rwy'n edrych ymlaen at weld yr hyn y gallwn ni ei gyflawni gyda'n gilydd yn y blynnyddoedd i ddod.



Neges o groeso

gan ein Prif Weithredwr, Zoe Richards



Uchafbwyntiau

- Lansio ein prosiect democratiaeth, Barod i Bleidleisio.
- Pontio, ein cylchlythyr newydd ar gyfer aelodau.
- Codi ymwybyddiaeth o'r heriau mae sefydliadau yn y trydydd sector yn eu hwynebu.

Wrth i Anabledd Dysgu Cymru ddechrau ei 40fed flwyddyn o weithio i wneud Cymru y lle gorau i bobl ag anabledd dysgu fyw, dysgu, caru a gweithio, rydyn ni'n cymryd amser i fyfyrto ar y 12 mis diwethaf.

Gallwn ni weld cymaint o waith cadarnhaol a phwysig yn digwydd ledled Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn dangos sut mae ymroddiad ac angerdd ein staff, ein hymddiriedolwyr a'n gwirfoddolwyr yn cefnogi hyn. Rwy'n falch o 2 ychwanegiad arwyddocaol i'n gwaith eleni – sef ein prosiect democratiaeth newydd, Barod i Bleidleisio, a Pontio, ein cylchlythyr newydd ar gyfer aelodau.

Ar yr un pryd, mae'n rhaid inni gydnabod yr heriau gwirioneddol y mae llawer o sefydliadau sy'n cefnogi pobl ag anabledd dysgu yn eu hwynebu.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y sefydliadau sydd naill ai'n cau eu drysau neu'n profi pwysau ariannol difrifol, a hynny yn erbyn cefndir y galw cynyddol am eu gwasanaethau.

Mewn ymateb, rydyn ni wedi parhau i godi ymwybyddiaeth o'r heriau hyn a hyrwyddo'r cyfraniad hanfodol y mae sefydliadau yn y trydydd sector yn ei wneud i fywyd Cymru ar gyfer pobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd. Bydd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i ni wrth inni gychwyn ein 40fed flwyddyn.

Rwy'n hynod falch o'r gwaith caled, yr ymrwymiad a'r amser a roddwyd i'n sefydliad gan ein tîm staff, ein hymddiriedolwyr a'n gwirfoddolwyr ymroddedig, a hoffwn i fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch iddyn nhw i gyd.



Dylanwadu ar bolisi

Uchafbwyntiau

- Gwnaethon ni helpu i lansio Cynghrair Bywyd Da.
- Gwnaethon ni greu ein maniffesto ar gyfer etholiad y Senedd, gan gynnwys fersiwn hawdd ei deall.
- Gwnaethon ni barhau i hyrwyddo pwysigrwydd cyflogaeth â chymorth ledled Cymru.
- Buon ni'n ymgyrchu ar yr anawsterau mae gwasanaethau anabledd dysgu yn y trydydd sector yng Nghymru yn eu hwynebu.

Lansio Cynghrair Bywyd Da

Buon ni'n gweithio mewn partneriaeth â Chynghrair Bywyd Da. Grŵp o unigolion a sefydliadau yw hwn sy'n gweithio dros newid gyda phobl ag anableddau dysgu a phobl awtistig sydd mewn perygl o gael eu heithrio'n hirdymor o'u cymunedau.

Mae'r Gynghrair yn seiliedig ar egwyddorion ac ymroddiad Grŵp Bywydau wedi'u Dwyn. Gwnaethon ni gefnogi lansiad swyddogol y Gynghrair yn y Senedd ym mis Medi.

Maniffesto Anabledd Dysgu Cymru ar gyfer Etholiad y Senedd

Roedd ein maniffesto yn tynnu sylw at y materion allweddol rydyn ni'n credu y bydd angen i Senedd nesaf Cymru fynd i'r afael â nhw er mwyn gwella bywydau pobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd/gofalwyr.

Gwnaethon ni annog pob plaid wleidyddol a phob ymgeisydd annibynnol i ymrwymo i'r gofynion yn ein maniffesto ni a maniffesto Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan. Er mwyn hyrwyddo ein maniffesto ac ymgysylltu â darpar Aelodau newydd y Senedd ar faterion allweddol, aethon ni i nifer o gynadleddau'r pleidiau gwleidyddol.

Ymgynghoriadau

Gwnaethon ni ymateb i 20 o ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol, sefydliadau, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Roedd y pynciau ymgynghori'n cynnwys taliadau uniongyrchol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, adborth ar y Cynllun Hawliau Pobl Anabl, cau gwasanaethau gofal a chymorth, a sawl cyfraniad i Adolygiad Timms ynghylch budd-daliadau cyflogaeth a lles.



Dylanwadu ar bolisi



Cyflogaeth â chymorth

Gwnaethon ni gefnogi Gerraint Jones-Griffiths i gyd-gadeirio cynhadledd ddeuddydd Cymdeithas Cyflogaeth â Chymorth Prydain yn Wembley. Gwnaethon ni hefyd gyfarfod â phartneriaid y prosiect Engage to Change, a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025, i drafod dyfodol cyflogaeth â chymorth yng Nghymru a rhannu erthygl ar ein gwefan yn amlinellu gwaddol y prosiect pwysig hwn. Hefyd, gwnaethon ni ymateb i ymgynghoriad 'Pathways to Employment' Llywodraeth y DU a mynychu sawl gweithdy i dynnu sylw at y rhwystrau i gyflogaeth mae pobl ag anabledd dysgu yn eu hwynebu.

Rhwydwaith CGGC

Daethon ni'n un o bartneriaid sefydlu'r Rhwydwaith Cynhadledd Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol (CGGC). Mae'r rhwydwaith yn hyrwyddo cydweithio ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector ac yn galluogi aelodau i rannu arferion da. Gwnaethon ni roi cyflwyniad am lwyddiant a heriau ein prosiect Ffrindiau Gig, a wnaeth ennyn cryn dipyn o ddiddordeb, gan gynnwys gan benaethiaid gwasanaethau cymdeithasol.

Trafnidiaeth gyhoeddus

Fel rhan o'n rôl fel cyd-Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd Dysgu, gwnaethon ni gyfarfod â chynrychiolwyr o Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru i drafod y problemau mae pobl ag anabledd dysgu yn eu hwynebu wrth

geisio adnewyddu eu pasys bws.

Gwnaethon ni hefyd godi pryderon am beidio â gallu defnyddio arian parod i dalu am luniaeth ar drenau Trafnidiaeth Cymru, a'r anawsterau y mae rhai pobl yn eu hwynebu wrth geisio prynu tocyn mewn gorsafoedd heb swyddogion.

Cau gwasanaethau'r trydydd sector

Gwnaethon ni godi pryderon am yr anawsterau ariannol mae llawer o wasanaethau anabledd dysgu yn y trydydd sector yn eu hwynebu. Mae hyn yn cynnwys cau'n llawn neu'n rhannol rai sefydliadau sydd wedi bod yn cefnogi pobl ag anabledd dysgu ers blynyddoedd lawer. Gwnaethon ni ysgrifennu at weinidogion a rhannu 2 erthygl ar ein gwefan a ysgrifennwyd gan ein Prif Swyddog Gweithredol Zoe Richards.

Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu

Gwnaethon ni barhau i fynychu cyfarfodydd Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu (LDMAG) a'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cartrefi Nid Ysbytai i gynghori'r Gweinidog ar y problemau mae pobl ag anabledd dysgu yng Nghymru yn eu hwynebu. Gwnaethon ni gymryd rhan mewn gweithdy i helpu i lunio polisi Llywodraeth Cymru yn y dyfodol a datblygu Cynllun Trawsnewid Anabledd Dysgu newydd.

Rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf gyda chi

Mae ein gwaith cyfathrebu wrth wraidd popeth rydyn ni'n ei wneud, o roi cyhoeddusrwydd i'n digwyddiadau, ein prosiectau a'n gwaith polisi, i rannu'r newyddion diweddaraf am anabledd dysgu gyda chi.

Roedd y pynciau rydyn ni wedi'u trafod ar ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys:

- Darlun damniol: argyfwng i'r gymuned anabledd dysgu yng Nghymru
- Helpu pobl i bleidleisio yn etholiad y Senedd: Ydych chi'n barod i bleidleisio?
- Astudiaeth newydd gyda'r nod o wella gofal diwedd oes i bobl ag anabledd dysgu
- Engage to Change yn dod i ben ond ei waddol yn byw o hyd.



Pontio

Ym mis Gorffennaf 2025 gwnaethon ni lansio ein cylchlythyr ar gyfer aelodau, Pontio.

Mae Pontio wedi'i gynllunio i rannu mwy amdanon ni fel sefydliad, gan gynnwys pwy ydyn ni a'r hyn rydyn ni'n ei wneud.

Yn ogystal â chynyddu ein haelodaeth, mae ein gwaith ni yn ymwneud â gwella'r ffordd rydyn ni'n ymgysylltu â'n haelodau a meithrin perthnasoedd cryfach.



Uchafbwyntiau

- Gwnaethon ni gynnal digwyddiad ar-lein ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda rhieni ag anabledd dysgu.
- Buon ni'n gweithio gyda Gwelliant Cymru i ddatblygu llwybr cenedlaethol newydd ar gyfer gwiriadau iechyd blynyddol.
- Gwnaethon ni gefnogi Tammi, sy'n Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru, i siarad dros bobl ifanc anabl eraill.
- Gwnaethon ni drefnu 4 cyfarfod o'r Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd Dysgu i siarad am faterion sy'n effeithio ar fywydau pobl ag anabledd dysgu.

Ariennir Pobl yr 21ain Ganrif gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n dathlu pobl ag anabledd dysgu fel crewyr, cyfranwyr a dinasyddion Cymru, wrth herio'r stereoteipiau presennol ar yr un pryd.

Teuluoedd yr 21ain Ganrif

Rhieni ag anabledd dysgu

Cynhaliwyd cyfarfod rhwydwaith ar-lein hynod lwyddiannus ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda rhieni ag anabledd dysgu, y daeth 75 o bobl iddo. Trafododd y cyfranogwyr rai o'r materion y mae rhieni ag anabledd dysgu yn eu hwynebu, a'r ffordd orau o'u cefnogi, yn ogystal â'r ffordd mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn cael eu defnyddio o fewn gwasanaethau cymdeithasol.

Gwnaethon ni barhau i gymryd rhan yn fforwm proffesiynol Cyswllt Rhieni Cymru i rannu barn rhieni ag anabledd dysgu a chyfarfodydd Grŵp Cyngori Cafcass Cymru i godi ymwybyddiaeth o anghenion rhieni a phlant ag anabledd dysgu mewn achosion gofal.

Byw yn yr 21ain Ganrif

Addysg gynhwysol

Gwnaethon ni wahodd 2 riant i rannu eu barn a'u profiadau o addysg gynhwysol yng nghyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd Dysgu ym mis Mawrth.



Lleisiau'r 21ain Ganrif Senedd Ieuenctid Cymru

Gwnaethon ni barhau i gefnogi Tammi yn ei rôl fel Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru. Aeth Tammi i gyfarfod rhanbarthol yng ngogledd Cymru ym mis Ebrill a phenwythnos preswyl yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd, lle cyflwynodd ddatganiad 90 eiliad ar drafnidiaeth gyhoeddus hygyrch a phwysigrwydd pleidleisio yn etholiad y Senedd.

Oherwydd etholiad y Senedd, cymerodd Senedd Ieuenctid Cymru seibiant rhwng mis Ionawr a mis Mai 2026.



Polisi a phobl – y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd Dysgu

Gwnaethon ni barhau â'n rôl fel cyd-Ysgrifennydd ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd Dysgu, gan drefnu a hwyluso 4 cyfarfod a gadeiriwyd gan Sioned Williams AS.

Roedd cyflwyniadau gan bobl ag anabledd dysgu a gofalmwr teuluol yn ymdrin â phynciau pwysig fel addysg gynhwysol, trafnidiaeth, hunaneiriolaeth ac eiriolaeth. Gwnaethon ni hefyd gynnal cyfarfod hybrid yn y Senedd i ddatlu Wythnos Anabledd Dysgu ym mis Mehefin.



Pobl yr 21ain Ganrif

Pobl Iach yr 21ain Ganrif

Gwiriadau iechyd blynyddol

Gwnaethon ni lwyddo i drefnu i'r adnoddau gwiriadau iechyd blynyddol gael eu cyhoeddi ar dudalennau Hawdd eu Deall 111 GIG Cymru o'r diwedd. Hefyd, roedden ni'n llwyddiannus wrth sicrhau bod yr adnoddau Hawdd eu Deall o'r holl raglenni sgrinio yng Nghymru ar gael ar yr un wefan.

Gwnaethon ni gymryd rhan mewn grŵp a sefydlwyd gan Gwelliant Cymru i ddatblygu llwybr cenedlaethol newydd ar gyfer gwiriadau iechyd blynyddol. Gwnaethon ni hefyd gymryd rhan mewn gweithdy Iechyd Cyhoeddus Cymru am strategaeth tegwch sgrinio newydd.

Lleihau arferion cyfyngol

Gwnaethon ni barhau i fynd i gyfarfodydd Grŵp 'Protecting Rights Eliminating Restraint' y DU a Chymuned Ymarfer Cymru ar gyfer Ymddygiadau sy'n Peri Gofid.


Gwnaethon ni helpu i sefydlu grŵp gweithredu newydd i edrych ar sut i gael pobl ag anabledd dysgu allan o ysbytai arhosiad hir a'u hatal rhag gorfod mynd yno yn y lle cyntaf. Daeth y grŵp hwn i gael ei adnabod fel y Gynghrair Bywyd Da yn ddiweddarach.

Gwnaethon ni fynychu 6 cyfarfod o is-grŵp Cartrefi Nid Ysbytai Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu.

Gwnaethon ni gyflwyno tystiolaeth i'r Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol.

Ym mis Mawrth, gwnaethon ni gymryd rhan mewn cyfarfod ar y cyd o'r Grwpiau Trawsbleidiol ar Anabledd ac Anabledd Dysgu i alluogi rhieni o'r grŵp Bywydau wedi'u Dwyn i rannu eu profiadau yn ddiennw gyda Llywodraeth Cymru.





Uchafbwyntiau

- Gwnaethon ni lansio prosiect newydd i annog mwy o bobl ag anabledd dysgu i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth.
- Traddododd Gerraint 3 chyflwyniad am bleidleisio.
- Gwnaethon ni ganllaw hawdd ei ddeall am bleidleisio a chanllaw i ymgeiswyr ar sut i fod yn fwy hygyrch.

Mae Barod i Bleidleisio yn brosiect newydd sy'n annog pobl ag anabledd dysgu i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth a gwneud pleidleisio mewn etholiadau yn fwy hygyrch. Mae'n cael ei ariannu gan Gronfa Ymgysylltu â Democratiaeth Llywodraeth Cymru.

Gwnaethon ni groesawu Gerraint Jones-Griffiths yn ôl i rôl newydd, sef Cydlynnydd y Prosiect Democratiaeth.

Gwnaethon ni rannu fideos gan Gerraint, Tammi (ein Haelod o Senedd Ieuenctid Cymru) a Georgia (ein hymddiriedolwr) am bwysigrwydd cofrestru i bleidleisio. Er mwyn paratoi ar gyfer etholiad y Senedd ym mis Mai 2026, gwnaethon ni ddatblygu gweithdai i helpu pobl ag anabledd dysgu i ddeall sut i bleidleisio a pham mae'n bwysig.

Rhoddodd Gerraint gyflwyniad mewn digwyddiad Pobl yn Gyntaf Torfaen. Hefyd, cyflwynodd sesiwn ar-lein i aelodau o grŵp Pobl yn Gyntaf Gorllewin Cymru am bleidleisio yn etholiad y Senedd.

Mewn partneriaeth â thîm ymgysylltu'r Senedd, cyflwynodd Gerraint hyfforddiant ar-lein i addysgwyr plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Gwnaeth y sesiwn ddangos sut y gellir gwneud gwersi am wleidyddiaeth Cymru a phleidleisio yn etholiad y Senedd yn fwy hygyrch.

Cynhyrchodd ein tîm Hawdd ei Ddeall Cymru ganllaw Hawdd ei Ddeall ar gyfer pleidleisio yn etholiad y Senedd a chanllaw i ymgeiswyr ar sut i fod yn fwy hygyrch.



Uchafbwyntiau

- Gwnaethon ni lansio ein gwefan newydd hawddeiddeall.cymru. Erbyn hyn, mae'n haws dysgu am ein gwasanaethau, cael mynediad at adnoddau am ddim a gofyn am ddyfynbris.
- Gwnaethon ni gwblhau 182 o brosiectau Hawdd ei Ddeall. Cawson ni 19 o gleientiaid newydd a gwnaethon ni fwy o wybodaeth mewn Iaith Syml, gwybodaeth sy'n Gyfeillgar i Ieuentid a gwybodaeth ar ffurf fideo.
- Gwnaethon ni helpu i wneud Safonau Hawdd ei Ddeall drafft y DU er mwyn gwella ansawdd deunydd Hawdd ei Ddeall ledled y DU.

Mae ein gwasanaeth Hawdd ei Ddeall wedi tyfu dros y flwyddyn ddiwethaf. Gwnaethon ni helpu mwy o sefydliadau i wneud eu gwybodaeth yn hygyrch a pharhau i gefnogi pobl ag anabledd dysgu i ddeall gwybodaeth bwysig.

Gwefan newydd – hawddeiddeall.cymru

Un o'n cyflawniadau mwyaf oedd lansio ein gwefan a'n logo newydd, a'i gwneud hi'n llawer haws i bobl ddysgu am ein gwasanaethau, gweld enghreifftiau o'n gwaith a gofyn am ddyfynbris.

Mae ein gwefan newydd hefyd yn cynnwys llawer o adnoddau am ddim rydyn ni wedi'u datblygu dros y blynyddoedd i'ch helpu i wneud gwybodaeth Hawdd ei Deall.

Gan gynnwys:

- Geiriadur diffiniadau rhad ac am ddim gyda channoedd o ddiffiniadau Hawdd eu Deall o eiriau anodd, acronymau ac ymadroddion yn Gymraeg a Saesneg.
- Ein llawlyfr Clir a Hawdd.
- Gwiriwch Ef! – sef pecyn cymorth i bobl ag anabledd dysgu wirio ansawdd deunydd Hawdd ei Ddeall.





Cleientiaid newydd, fformatau newydd

Gwnaethon ni gwblhau 182 o brosiectau ar gyfer 48 o wahanol sefydliadau. Gwnaethon ni groesawu 19 o gleientiaid newydd a denu rhagor o incwm newydd i gefnogi gwaith Anabledd Dysgu Cymru.

Ymhlith y cleientiaid newydd roedd Golley Slater, Craidd Cymru,

Amgueddfa Cymru, Estyn a'r Tîm Niwroamrywiol Cenedlaethol.

Gwnaethon ni hefyd barhau i dyfu ein gwasanaethau trwy gynhyrchu mwy o ddogfennau Iaith Syml, fideos Hawdd eu Deall a'n hymgyngoriad Cyfeillgar i Ieuenctid cyntaf.

Gweithio gyda phartneriaid i wella deunydd Hawdd ei Ddeall

Gwnaethon ni barhau i chwarae rhan bwysig wrth wella deunydd Hawdd ei Ddeall ledled y DU.

Fel aelodau o Grŵp Safonau Hawdd ei Ddeall y DU, gwnaethon ni ddylunio Safonau Hawdd ei Ddeall drafft y DU, y disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi tua diwedd 2026. Bydd y safonau'n helpu i wella ansawdd a chysondeb dogfennau Hawdd eu Deall.

Gwnaethon ni hefyd weithio'n agos gyda phobl ag anabledd dysgu trwy 3 grŵp ffocws a 5 sesiwn adborth i helpu i wella ansawdd ein deunydd Hawdd ei Ddeall.

Cawson ni fwy o adborth gan gleientiaid nag yn y blynyddoedd blaenorol, a graddiwyd ein gwaith yn gadarnhaol gan bob cleient a roddodd adborth.

Rydyn ni'n falch bod mwy o sefydliadau'n dewis Hawdd ei Ddeall Cymru i wneud eu gwybodaeth yn hygyrch.



I gael rhagor o wybodaeth, cael mynediad at ein hadnoddau am ddim neu ofyn am ddyfynbris, ewch i hawddeiddeall.cymru neu e-bostiwch easyread@ldw.org.uk.

Digwyddiadau a rhwydweithiau

Uchafbwyntiau

- Daeth bron 300 o bobl i'n cynhadledd flynyddol yng Nghyffordd Llandudno ac Abertawe.
- Gwnaethon ni gynnal 9 cwrs ar sut i wneud gwybodaeth yn hawdd ei darllen a'i deall.
- Gwnaethon ni lansio rhwydwaith newydd ar gyfer darparwyr cyfleoedd dydd ledled Cymru.

Cynhadledd flynyddol 2025 – Mae fy Nghartref yn Bwysig

Daeth ein cynhadledd flynyddol â phobl ynghyd i siarad am dai, cartrefi a lle mae pobl yn byw.

Gwnaethon ni archwilio ystod eang o bynciau, gan gynnwys gwella byw â chymorth, defnyddio technoleg gartref, a dewis go iawn ynghylch ble a sut i fyw, yn ogystal â'r ymgyrch Cartrefi Nid Ysbytai.

Daeth ein digwyddiadau yng Nghyffordd Llandudno ac Abertawe â bron 300 o bobl ynghyd i fwynhau cymysgedd bywiog a chynhwysol o ddrama, cerddoriaeth, gweithdai, sgwrsiau, ffilmiau ac arddangoswyr.

Dyma'r hyn a ddywedodd pobl am ein cynhadledd:

Perffaith. Wnes i ddysgu llwyth a ches i fynegi fy hun!

Gweithdai gwych. Roedd llawer o bobl egnïol, ac roedd yr angerdd dros gael y gorau i bobl ag anabledd dysgu i'w weld yn glir.

Roedd y cyfan yn hynod ddiddorol: cyfle gwych i rwydweithio a chasglu gwybodaeth.



Digwyddiad Dydd Gŵyl Dewi – Cymru i bawb

Buon ni'n gweithio mewn partneriaeth ag Ategi i gynnal dathliad o Ddydd Gŵyl Dewi, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd y digwyddiad yn edrych ar yr hyn y mae Cymru yn ei olygu i bobl ac yn dathlu gwahanol agweddau ar Gymru a'i diwylliant. Roedd y diwrnod yn cynnwys llawer o weithgareddau a phrofiadau yng Nghaerdydd, gan gynnwys canu, dawnsio, chwaraeon, bwyd, y Gymraeg a gemau.

Fel rhan o'r digwyddiad, gwnaethon ni hefyd ddatblygu taflen Hawdd ei Deall am yr hyn y mae Dydd Gŵyl Dewi yn ei olygu i bobl Cymru.

Hyfforddiant Hawdd ei Ddeall

Mae ein hyfforddiant Hawdd ei Ddeall ar-lein ac wyneb yn wyneb yn helpu sefydliadau i gysylltu â phobl ag anabledd dysgu, eu cynnwys a darparu gwasanaethau gwell iddyn nhw. Gwnaethon ni ddarparu 9 cwrs am wneud gwybodaeth yn haws ei darllen a'i deall i gynrychiolwyr ar draws y sectorau statudol a gwirfoddol.

Rhwydwaith darparwyr cyfleoedd dydd

Gwnaethon ni gynnal digwyddiad ar-lein ym mis Mai ar gyfer ein rhwydwaith newydd ar gyfer darparwyr cyfleoedd dydd ledled Cymru. Daeth 27 o bobl i'r digwyddiad, a oedd yn canolbwyntio ar nodau'r rhwydwaith, yn ogystal â'r heriau a'r cyfleoedd yn y sector ar hyn o bryd.

Mae manylion ein holl hyfforddiant a digwyddiadau i'w cael ar ein gwefan yn: www.ldw.org.uk/cy/training-events/.



Uchafbwyntiau

- Cawson ni £397,000 gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, sydd wedi sicrhau ein prosiect yng ngogledd Cymru am 3 blynedd.
- Gwnaethon ni baru 49 o barau ffrindiau gig newydd ar draws ein 3 phrosiect.
- Enillon ni wobwr gan Celfyddydau a Busnes am ein partneriaeth â Chymdeithas Tai Dewis Cyntaf.
- Cawson ni ein cynnwys ar ITV Cymru ac mewn cylchgrawn cerddoriaeth. Gwyliwyd fideo ar Instagram dros 50,000 o weithiau.

Ym mhob cwr o Gymru

Mae Ffrindiau Gig Cymru yn helpu oedolion ag anabledd dysgu ac oedolion awtistig i oresgyn unigrwydd ac ynysigrwydd a byw bywydau cymdeithasol llawn. Rydyn ni'n gwneud hyn trwy baru cyfranogwyr â ffrind gwirfoddol o'u cymuned sydd â diddordebau a hobiau tebyg. Mae ein ffrindiau wrth galon y prosiect. Maen nhw'n helpu i gynllunio digwyddiadau cymdeithasol, yn traddodi sgysiau, yn ymddangos yn y cyfryngau ac yn rhedeg stondinau mewn digwyddiadau. Roedden ni'n falch o gael 2 ffrind yn cadeirio cynhadledd flynyddol Anabledd Dysgu Cymru – Victoria yng Nghyffordd Llandudno a Richie yn Abertawe.

Ochr yn ochr â Chymdeithas Tai Dewis Cyntaf, cawson ni'n henwi'n bartneriaeth Celfyddydau, Busnes ac Amrywiaeth y flwyddyn yng Ngwobrau Celfyddydau a Busnes Cymru. Gwnaethon ni ddatblygu partneriaeth newydd gyda'r hyrwyddwyr



cerddoriaeth Cuffe a Taylor a Depot Live. Gwnaethon ni ddarparu Man Tawel yn Blackweir Live a gafodd ei defnyddio gan 155 o bobl yn ystod 4 cyngerdd awyr agored mawr. Derbyniodd ffrindiau docynnau am ddim i gigiau yn Blackweir a Chastell Caerdydd lle cawson nhw gyfle i fwynhau Stevie Wonder, Alanis Morissette, Tom Jones, Slayer, Pet Shop Boys a mwy.

Rydyn ni'n un o bartneriaid elusennol Gwobr Gerddoriaeth Cymru. Aeth dros 50 o ffrindiau i'r gwobrau yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ac i barti gyda cherddorion ac enwogion ar ôl y sioe. Mwynhaodd parau Ffrindiau Gig dros 1,000 o weithgareddau cymdeithasol gyda'i gilydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf!

Caerdydd

- Daeth cyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, a oedd wedi ariannu ein prosiect yng Nghaerdydd ers mis Ebrill 2024, i ben ym mis Rhagfyr 2025. Rydyn ni'n ceisio cyllid newydd.
- Gwnaethon ni recriwtio 31 o wirfoddolwyr newydd a 22 o gyfranogwyr, a gwnaethon ni baru 25 pâr o ffrindiau gig. Mae 42 pâr o ffrindiau gig yng Nghaerdydd gennym ni erbyn hyn. Mae rhai o'r rhain yn bobl sydd wedi cael eu hail-baru â gwirfoddolwr newydd.
- Cynhaliwyd 5 digwyddiad 'gwib-gymdeithasu' lle daethon ni â 104 o gyfranogwyr a gwirfoddolwyr ynghyd i ddod i adnabod ei gilydd, a oedd yn arwain at barau naturiol.
- Roedd stondinau gyda ni a gwnaethon ni roi sgysiau yn y Rhwydwaith Cyfeillio,



Gŵyl Sŵn, Blackweir Live a'r Wobr Gerddoriaeth Gymreig.

- Roedd digwyddiadau cymdeithasol yn cynnwys cabaret, un o gemau rygbi rhyngwladol Cymru, drag, cerddoriaeth fyw, digwyddiad Dydd Gŵyl Dewi, gorymdaith Pride Cymru a caraoce.
- Gwnaethon ni gefnogi Richie, sy'n ffrind gig o Gaerdydd, i gynllunio a chynnal ei gig ei hun, "Richiefest", a gododd £1,500 ar gyfer Ffrindiau Gig.
- Gwnaethon ni gefnogi band cynhwysol Tŷ Cerdd, 'Zebra Cactus', sy'n cynnwys sawl ffrind, pan wnaethon nhw chwarae yng Nghanolfan Mileniwm Cymru.

Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot

- Rydyn ni'n parhau i gael ein hariannu gan Gronfa Integreiddio Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg. Llwyddon ni i gael cyllid hefyd gan Wobrau i Bawb y Loteri Genedlaethol a Grant Unigrwydd ac Ynysigrwydd Castell-nedd Port Talbot (CnPT), a oedd yn ein galluogi ni i gyflogi cynorthwyydd llawrydd.
- Gwnaethon ni recriwtio 33 o wirfoddolwyr newydd a 25 o gyfranogwyr, a gwnaethon ni baru 16 pâr o ffrindiau gig. Mae rhai pobl wedi gadael y prosiect ac erbyn hyn mae gennym ni 13 pâr o ffrindiau gig yn yr ardal.
- Roedd y digwyddiadau cymdeithasol yn cynnwys Pride Abertawe a CNPT, mynd i glybiau nos, drag, cabaret, gêm bêl-droed, digwyddiad Dydd Gŵyl Dewi, chwaraeon cynhwysol, Viva Fest, un o gemau rygbi rhyngwladol Cymru ac ymweld ag Ynys y Barri.
- Rydym wedi rhwydweithio a meithrin perthynas â sefydliadau ar draws y sectorau celfyddydau, chwaraeon ac anabledd. Gwnaethon ni gynnal stondinau mewn digwyddiadau gan gynnwys ffeiriau gwirfoddoli, Prifysgol Abertawe a Pride.

Ffrindiau Gig Cymru

Gogledd Cymru

- Roedden ni'n falch iawn o gael £397k gan raglen Pobl a Lleoedd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol am 3 blynedd o fis Gorffennaf 2025 ymlaen. Mae hyn wedi caniatáu inni recriwtio cennad ag anabledd dysgu, uwch gydlynnydd a chydlynnydd cymorth prosiect.
- Gwnaethon ni recriwtio 15 o wirfoddolwyr newydd a 22 o gyfranogwyr, a gwnaethon ni baru 8 pâr o ffrindiau gig. Erbyn hyn, mae gennym ni 24 pâr o ffrindiau gig yng ngogledd Cymru.
- Roedd y digwyddiadau cymdeithasol yn cynnwys diwrnod theatr yn Llandudno, drama Housemates Theatr Hijinx yn Theatr Clwyd, taith ar y trênn drwy Ddyffryn Conwy i ddatblygu hyder wrth deithio, comedi yn Llandudno, a digwyddiadau Nadoligaidd yng Nghaernarfon a Chaer.
- Gwnaethon ni gryfhau ein partneriaeth gyda Focus Wales, gŵyl ryngwladol a gynhelir gan y diwydiant cerddoriaeth yn Wrecsam, lle roedd gennym ni stondin, a gwnaethon ni gefnogi llawer o ffrindiau i fynd i'w gŵyl gerddoriaeth 'aml-leoliad' gyntaf.
- Gwnaethon ni godi ymwybyddiaeth a chryfhau partneriaethau cymunedol, gan gynnwys Prifysgol Bangor, Coleg Llandrillo, ffeiriau swyddi, lleoliadau celfyddydol, canolfannau llesiant, cynadleddau, fforymau hygyrchedd a Theatr Clwyd.





Ffrindiau Gig yn y cyfryngau

Cafodd y ffrindiau gigiau Richie a Mark eu cyfweld ar 'Backstage', rhaglen gelfyddydol ITV Cymru, a chawson ni ein cynnwys yn y cylchgrawn cerddoriaeth 'Radar'.

Rydym wrth ein bodd yn cydweithio ar y cyfryngau cymdeithasol gyda sefydliadau celfyddydol, lleoliadau, gwyliau ac artistiaid, sy'n helpu i gynyddu ymwybyddiaeth o Ffrindiau Gig a bywydau pobl ag anabledd dysgu.

Eleni cawson ni lwyddiant ysgubol gyda 3 chydweithrediad, yr oedd pob un ohonyn nhw'n cynnwys ffrind gig o Gaerdydd, Richie:

- Cafodd fideo Richie ar gyfer Cuffe a Taylor, sy'n hyrwyddo'r hygyrchedd yn Blackweir Live, ei wyllo 18,000 o weithiau.
- Cafodd fideo Richie ar gyfer Sŵn, yn rhannu ei 5 hoff artist i'w gwyllo yn yr ŵyl, ei wyllo 20,000 o weithiau.
- Cafodd yr adeg pan wnaeth y band Getdown Services sôn am Richie a Ffrindiau Gig yn ystod eu gig yn Sŵn ei gwyllo 50,000 o weithiau.

Mae gennym ni dros 2,000 o ddilynwyr ar Instagram a dros 4,000 ar Facebook. Da iawn wir i Victoria Waller, ein gwirfoddolwr sy'n gweithio ar y cyfryngau cymdeithasol! Dilynwch ni i weld straeon gan ein ffrindiau gig ac i ddarganfod mwy am yr hyn rydyn ni'n ei wneud:

[Facebook.com/gigbuddiescymru](https://www.facebook.com/gigbuddiescymru) ac
[Instagram.com/gigbuddiescymru](https://www.instagram.com/gigbuddiescymru).

**Gwirfoddolwch
fel Ffrind Gig
www.gigbuddies.cymru**



Ein staff

Arweinyddiaeth



Zoe Richards
Prif Swyddog
Gweithredol

Polisi a Chyfathrebu



Samantha Williams
Rheolwr Polisi a
Chyfathrebu



Kai Jones
Swyddog
Cyfathrebu



Beth Rees
Swyddog Polisi a
Chyfathrebu

Hawdd ei Ddeall Cymru



Laura Griffiths
Rheolwr Cyfathrebu
Hygyrch



Inacia Rodrigues
Swyddog Cyfathrebu
Hygyrch



Julie Jones
Swyddog Cyfathrebu
Hygyrch



Rhian McDonnell
Swyddog Cyfathrebu
Hygyrch

Digwyddiadau a Rhwydweithiau



Simon Rose
Rheolwr Digwyddiadau
a Rhwydweithiau



Lucy O'Leary
Cydllynydd Digwyddiadau
a Rhwydweithiau



Gerraint Jones-Griffiths
Cydllynydd Prosiect
Democratiaeth (o fis Medi 2025)

Adnoddau Dynol a Chyllid



Zhanar Tabeyeva
Rheolwr Cyllid



Joanne Moore
Rheolwr Adnoddau
Dynol a Llywodraethu



Julie Sangani
Rheolwr Rhwydweithio
a Chodi Arian



Elizabeth Davidson-Henery
Rheolwr Datblygu
Busnes

Busnes a Chodi Arian

Ffrindiau Gig Cymru



Karen Warner
Rheolwr
Arloesi



Kai Jones
Swyddog Datblygu'r
Prosiect



Kylie Smith
Cydlunydd
Caerdydd



Danielle Wagstaff
Cydlunydd Abertawe,
Castell-nedd Port Talbot



Emma Scott-Davies
Cydlunydd Cymorth
Prosiect De Cymru



John Butterly
Cydlunydd Gwirfoddolwyr
Gogledd Cymru



Sian Lloyd-Davies
Cydlunydd Gogledd
Cymru



Victoria Waller
Cennad (o fis
Tachwedd 2025)



Ellie Morgan
Cydlunydd Cymorth
Prosiect Gogledd Cymru
(o fis Rhagfyr 2025)



Malan Jones
Uwch Gydlynnydd
Gogledd Cymru
(o fis Mawrth 2026)

Tîm Cymorth



Iwan Good
Cydlunydd Aelodaeth,
Digwyddiadau ac
Ymgysylltu



Julie Jenkins
Cydlunydd Cymorth
Gweinyddol



Nicola Alsept
Gweinyddwr Cyllid



Michael Allcock
Glanhauwr y Swyddfa

**Rydyn ni am i Gymru fod y
wlad orau yn y byd i bobl ag
anabledd dysgu fyw, dysgu,
caru a gweithio.**

Ein hymddiriedolwyr a'n haelodau

Ymddiriedolwyr

Mae ein hymddiriedolwyr yn cwblhau tymor o 3 blynedd ac fe etholir ymddiriedolwyr newydd yn ein CCB bob blwyddyn. Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn ymddiriedolwr, e-bostiwch joanne.moore@ldw.org.uk.

Cymuned o Ddiddordeb Cynrychiolwyr aelodau	Nifer y seddi	Ymddiriedolwyr	Yn cynrychioli
Darparwyr oedolion	2	Rhian Jones Claire Higgins (Trysorydd)	Gyriant Anheddau Cyf
Hunan-eiriolaeth	2	James Tyler Angharad Williams	Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan Eiriolaeth Eich Llais
Gofalwyr teuluol	2	Adele Rose-Morgan Richard Cox	Joining the Dots Ategi
Darparwyr cymorth i deuluoedd	2	Lynne Whistance Sana Tabassum Shaikh (ymddiswyddodd Medi 2025)	Grŵp Codi EYST
Cyflogaeth â chymorth	1	Gwag	

Seddi agored	Nifer y seddi	Ymddiriedolwyr
Unigolion sydd â diddordeb	6 (hyblyg)	Tracy Hammond (Cadeirydd), Stephen Cox, Ramona Murray, Jonathan Griffiths, Georgia Miggins, Nadine Honeybone.

Cynghorwyr: Steve Beyer a Kathryn Whitfield (a adawodd ym mis Medi 2025)

Aelodau a chefnogwyr


Math o aelodaeth	Nifer yr aelodau
Aelodau	116
Cefnogwyr	2,152



Os hoffech chi ddod yn aelod neu'n gefnogwr, mae'r holl fanylion i'w cael ar ein gwefan yn: www.ldw.org.uk/cy/about-us/dod-yn-aelod/

Sut y gwnaethon ni wario ein harian


Yr arian a gawson ni'r flwyddyn hon



Ffynhonnell arian Swm

Grant Llywodraeth Cymru	£400,000 (45.61%)
Prosiectau'r DU	£231,712 (26.42%)
Hyfforddiant a Digwyddiadau	£26,612 (3.03%)
Ymgynghoriaeth, rhwydweithiau a gwasanaethau cynnal	£194,325 (22.16%)
Rhoddion	£2,161 (0.25%)
Llog banc	£22,238 (2.54%)
Cyfanswm	£877,048 (100.00%)

Yr arian a wariwyd gennym y flwyddyn hon



Categori

Swm

Staff a theithio	£724,852 (79.18%)
Grantiau i Bartneriaid Prosiect yn y DU	(0%)
Cyrsiau a chynadleddau	£36,915 (4.03%)
Gofalu am ein hadeilad	£35,604 (3.89%)
Digwyddiadau prosiectau	£52,839 (5.77%)
Rhedeg y swyddfa	£34,424 (3.76%)
Costau llawrydd	£2,255 (0.25%)
Cyfieithu	£17,872 (1.95%)
TAW na ellir ei hadennill	£3,800 (0.42%)
Ffioedd archwilio	£3,875 (0.42%)
Dibrisiant	£2,226 (0.24%)
Cyfarfodydd yr ymddiriedolwyr	£839 (0.09%)
Cyfanswm	£915,501 (100.00%)

Canlyniad ddiwedd y flwyddyn:

Mae'r diffyg o £38,453 yn cynnwys diffyg anghyfyngedig o £41,433 ar ôl trosglwyddiadau a gwared cyfyngedig o £2,980.

Our year in pictures

Ein blwyddyn mewn lluniau





Ein blwyddyn mewn rhifau 2025 – 2026



Dylanwadu ar bolisi

4



Cyfarfod o'r Grŵp
Trawsbleidiol

1




Maniffesto etholiad
Anabledd Dysgu Cymru

20



O ymatebion i
ymgyngoriadau



Hawdd ei Ddeall Cymru

1



Wefan newydd

182+



O ddarnau o waith
Hawdd ei Ddeall

48



O gleientiaid



Eich hysbysu

18



Erthygl newyddion
ar ein gwefan

36,000



O ymwelwyr â'r
wefan

7,200



O ddilynwyr ar
Facebook

1,100



Ddilynwyr ar
LinkedIn



Digwyddiadau a rhwydweithiau

2



Gynhadledd
flynyddol

9



Sesiwn hyfforddi
am wybodaeth
hygyrch

1



Rhwydwaith newydd
ar gyfer darparwyr
cyfleoedd dydd

Bron
300



O bobl yn ein
cynadleddau
blynyddol



Ffrindiau Gig Cymru

79



O wirfoddolwyr
newydd

1,000+



O weithgareddau
cymdeithasol

49



O barau newydd
wedi'u paru

155



O ymwelwyr i'n
Man Tawel yn
Blackweir Live



Barod i Bleidleisio

3




Fideo i annog pobl
ag anabledd dysgu i
bleidleisio

3



Chyflwyniad am
bleidleisio a pham
mae'n bwysig

2



Canllaw Hawdd eu Deall
am bleidleisio a gwneud
ymgyrchoedd yn hygyrch